Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Trefynwy

**Hen Heol Dixton**
**Trefynwy**
**Sir Fynwy**
**NP25 3YT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Trefynwy

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gyfun Trefynwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1684 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1341 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 343 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 19.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.7% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 17/11/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 13/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn gymuned fywiog a chynhwysol. Mae wedi'i lleoli mewn adeilad ysbrydoledig, a agorwyd yn 2018, sy'n llawn gofod a goleuni. Mae'r cyfleusterau'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddysgu a lles disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau hyn, er enghraifft o ran datblygu creadigrwydd a medrau corfforol disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da mewn medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn arbennig o huawdl ac yn yn ysgrifennu'n hynod o effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn meddwl yn feirniadol ac yn fyfyriol, ac mae gan ychydig ohonynt fedrau creadigol eithriadol o dda. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n ddigon da mewn gwersi, ac mae hyn yn rhwystro'u cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda y tu mewn a'r tu allan i wersi. Maent yn barchus, yn gwrtais ac yn hyderus. Mae'r ganolfan adnoddau arbenigol (CAA) ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anawsterau dysgu cymhleth yn amgylchedd hynod gynhwysol, lle mae'r disgyblion hyn yn ffynnu, ac maent yn integreiddio'n dda i weithgareddau prif ffrwd, pan fo'n briodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos agweddau eithriadol o dda at ddysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da. At ei gilydd, nid yw presenoldeb disgyblion wedi'i adfer i lefelau cyn y pandemig, ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn peri pryder.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi darparu symbyliad clir ar gyfer gwella'r ysgol yn barhaus, a'r nod yw galluogi pob disgybl i gyflawni ei botensial ac ymestyn ei gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Nod arweinwyr yw cyflawni hyn trwy addysgu o ansawdd uchel sy'n cefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ond nid ydynt bob amser yn gwerthuso effaith yr addysgu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn ddigon manwl gywir.

Mae gan yr ysgol ymagwedd gydlynus at ddysgu proffesiynol, yn enwedig datblygu terminoleg a strategaethau addysgu ar y cyd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu. Mewn llawer o achosion, mae brwdfrydedd athrawon am eu pwnc a chynllunio gwersi ystyriol yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol, ac mae ystod eang o weithgareddau cyfoethogi pellach ar gael iddynt. Nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru wedi'i datblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion, ac mae uwch arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf sy'n diwallu anghenion bron pob un o'r disgyblion. Datblygwyd y cwricwlwm lles ar y cyd â disgyblion i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer eu hiechyd corfforol, emosiynol a'u hiechyd meddwl.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau i wella presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio’n fwy manwl gywir ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu’r disgyblion

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddysgu am iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith yn gysylltiedig â’r canlynol:

1. ei hymagweddau at ddatblygu’r Cwricwlwm i Gymru
2. cynwysoldeb ac integreiddio’r ganolfan adnoddau arbenigol

# Prif werthusiad

## Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn gadarn, ac yn gwneud cynnydd da. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau'n hyderus mewn cyd-destunau newydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig am nad ydynt yn ymgysylltu'n ddigonol â gweithgareddau dysgu, neu'n dal ati i ganolbwyntio'n ddigon da. Mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y CAA yn gwneud cynnydd da dros gyfnod, yn enwedig o ran datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon a'u cyfoedion, sy'n eu helpu i ddeall yr hyn mae angen iddynt ei wneud ac adeiladu ar gyfraniadau pobl eraill. Maent yn gweithio'n dda wrth weithio mewn grwpiau. Mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n dda at drafodaethau dosbarth a'r mwyafrif ohonynt yn gwneud hynny'n hyderus. Maent yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn sensitif. Er enghraifft, maent yn trafod mewn ffordd synhwyrol ac aeddfed beth yw effaith defnyddio'r rhagenwau anghywir wrth gyfarch rhywun sy'n anneuaidd. Mae mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan yn briodol mewn gweithgareddau 'troi a siarad' ond nid yw lleiafrif ohonynt bob amser yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd hyn. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymateb yn fanwl i gwestiynau athrawon, gan ddefnyddio terminoleg bwnc briodol, ac yn gofyn eu cwestiynau eu hunain i ymestyn eu dysgu. Mae ychydig o ddisgyblion yn arbennig o huawdl, a'u lleferydd yn cynnwys geirfa eang a soffistigedig, gan ddefnyddio geiriau fel 'melancolaidd' ('melancholic'), 'rhithiol' ('illusory') a 'cynefineg' ('proxemics') yn eu cyd-destun cywir. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth esbonio eu meddwl yn glir, ac yn defnyddio geirfa sylfaenol yn unig.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddod o hyd i wybodaeth yn addas, a nodi syniadau pwysig mewn testunau, er enghraifft wrth ystyried gwahanol safbwyntiau ar arwyddocâd diwylliannol y Titanic mewn hanes. Mae llawer o ddisgyblion yn amlygu ac yn anodi testunau yn fuddiol i ddangos eu dealltwriaeth o bwyntiau allweddol, ac yn dewis dyfyniadau perthnasol i gefnogi eu barn. Mae mwyafrif y disgyblion yn rhesymu ac yn dod i gasgliad yn effeithiol o destunau, er enghraifft wrth ystyried effaith stormydd trofannol ar wledydd incwm isel ac incwm uchel. Maent yn cynnig dehongliadau ystyriol o farddoniaeth, fel 'Return to Cardiff' gan Dannie Abse. Mae ychydig o ddisgyblion yn dod i gasgliad yn fedrus o destunau aml-gyfrwng mewn amrywiaeth o bynciau. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso ystod ddigon eang o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, maent yn cael trafferth darllen y tu hwnt i ystyr llythrennol testun.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hysgrifennu gyda manylder canmoladwy, er enghraifft wrth drafod achosion a goblygiadau dioddefaint mewn crefydd, gwerthoedd a moeseg. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa, gan gynhyrchu ysgrifennu sydd wedi'i strwythuro'n dda ac yn dechnegol gywir. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn ystod o fformatau ac arddulliau, gan gynnwys diagramau anodedig, mapiau meddwl, cynlluniau dylunio a gwerthusiadau. Yn gyffredinol, mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu â dirnadaeth ac eglurder, gan weddu tôn ac arddull yn effeithiol i ddiben a chynulleidfa. Maent yn

llunio dadleuon rhesymegol a pherswadiol gan ddefnyddio strwythurau brawddeg amrywiol a dyfeisiau rhethregol priodol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol rheolaidd, ac yn cyflwyno gwaith yn anniben. Mae ychydig o ddisgyblion yn dibynnu ar gopïo gwybodaeth neu enghreifftiau yn hytrach nag ysgrifennu'n annibynnol.

Mewn gwersi Cymraeg, mae mwyafrif y disgyblion yn dod o hyd i wybodaeth yn addas mewn testunau. Maent yn defnyddio strategaethau darllen yn briodol i ganfod ystyr geiriau newydd. Mae tua hanner ohonynt yn ysgrifennu brawddegau syml yn Gymraeg gyda chymorth gan eu hathro. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir gyda mwy o fanylder gan ddefnyddio rhestrau gwirio meini prawf llwyddiant i'w cynorthwyo. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif ohonynt yn cael trafferth ynganu geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn glir ac yn gywir, ac ni all tua hanner ohonynt ysgrifennu brawddegau sylfaenol yn annibynnol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg cyffredin wrth ysgrifennu Cymraeg.

Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad cadarn o fedrau rhif. Gallant gyfrifo gan ddefnyddio'r pedair rheol yn rhugl, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Er enghraifft, maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o'r pedair rheol, canrannau a chymhareb i ddewis o blith nifer o wahanol opsiynau ar gyfer bonysau cyflog blynyddol. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o siapiau a mesurau ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda. Gallant gyfrifo arwynebeddau a pherimedrau yn gywir. Yn eu gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o bwerau 10 i newid rhwng gwahanol unedau metrig. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhifedd cryf. Er enghraifft, maent yn defnyddio trigonometreg i gyfrifo onglau ac ochrau coll mewn siapiau 3D. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif gwan, ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau rhif.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cadarn wrth drin data. Maent yn cyfrifo cyfartaleddau ac amrywiad ac yn dewis y math mwyaf priodol o graff i arddangos data. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi siartiau a graffiau i lunio casgliadau synhwyrol, er enghraifft wrth edrych ar dueddiadau yn effaith trychinebau atmosfferig ar gyfraddau marwolaethau a cholledion economaidd mewn gwahanol wledydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn tynnu lluniau graffiau yn gywir nac yn dadansoddi eu graffiau neu'u canfyddiadau yn ddigon manwl.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu a chymhwyso eu medrau digidol yn briodol mewn ystod addas o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn ystyried dibynadwyedd gwybodaeth ar wefannau am fusnesau ac enwogion mewn cyfrifiadura. Mewn celf, mae disgyblion yn creu animeiddiadau ar hoff weithiau celf, ac mewn technoleg, maent yn creu ffeiliau ffeithiau ar-lein sydd wedyn yn cael eu defnyddio yn y broses ddylunio.

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn gwella'u techneg nofio mewn gwersi addysg gorfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn chwilfrydig ac yn gofyn cwestiynau craff, er enghraifft wrth archwilio strwythur y system solar. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu creadigrwydd yn dda, er enghraifft wrth ddyfeisio fframiau rhew i bortreadu rhediad stori mewn drama. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol eithriadol o dda mewn celf a thecstilau, er enghraifft wrth greu cerflun o'r pen dynol neu ddylunio dillad o gynhyrchion gwastraff.

Yn y chweched dosbarth, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn gwrando'n astud ar esboniadau ac ar gyfraniadau eu cyfoedion mewn gwersi. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau datblygedig yn dda, ac yn eu cymhwyso'n gywir, er enghraifft wrth ganfod grym gwrthyriad rhwng dau drydaniad mewn ffiseg. Maent yn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn modd cydlynus a rhesymegol. Maent yn dadansoddi testunau'n graff, er enghraifft wrth ystyried sut mae Homer yn creu cydymeimlad ag Odysseus mewn gwareiddiad clasurol neu drafod defnydd Bronte o ddelweddau Gothig mewn gwersi Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, er enghraifft y gwahaniaeth rhwng meiosis a mitosis a rôl mitocondria mewn bioleg. Mewn mathemateg, mae disgyblion yn cymhwyso'u dealltwriaeth o fesur lleoliad a gwasgariad i sefyllfaoedd lle mae mwy nag un hapnewidyn. Mae disgyblion yn gwerthuso effaith Siartiaeth Gymreig, mewn hanes, ar fethiant Siartiaeth yn gyffredinol. Mewn cyfrifiadureg, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am systemau gweithredu i ddeall amserlennu torri amser a swyddogaeth prif rannau system weithredu yn fanylach.

Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn barod i gyfrannu at drafodaethau, gan esbonio eu rhesymu yn dda. Mae ganddynt eirfa soffistigedig sy'n benodol i bwnc, ac maent yn ei defnyddio'n fanwl gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn siaradwyr eithriadol o huawdl ac yn ysgrifenwyr hynod effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd a datrys problemau datblygedig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn creu cysylltiadau cymhleth rhwng gwahanol destunau, er enghraifft defnyddio'r rheol sgwâr gwrthdro wrth gyfrifo grymoedd disgyrchedd neu electrostatig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n falch i fod yn rhan o Ysgol Gyfun Trefynwy. Maent yn mwynhau'r ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Os oes ganddynt unrhyw broblemau, dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod ganddynt oedolyn maent yn ymddiried ynddo y gallant droi ato. Mae disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn yr ysgol, yn y gymuned ehangach ac ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus a chwrtais â'u cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Pan ofynnir iddynt am eu safbwyntiau ar wahanol agweddau ar eu profiad ysgol, mae disgyblion yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn barod i wneud cyfraniad cadarnhaol at y ddeialog. Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng disgyblion ac athrawon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall polisi'r ysgol ar berthnasoedd ac ymddygiad, ac yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu eu hyder yn dda trwy gymryd rhan mewn darpariaeth allgyrsiol, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir iddynt drwy'r rhaglen hon. Ceir lefelau uchel o gyfranogiad rheolaidd mewn gweithgareddau, sy'n cynnwys clwb rhwyfo, clwb gemau bwrdd a chlwb iwcalili. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Er enghraifft, mewn gwersi lles, maent yn trafod perthnasoedd iach, bwyta'n iach ac ymarfer corff, ac effaith y rhain ar eu lles.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n cael mynediad i'r CAA, yn ymgymryd â chyfleoedd arwain. Mae'r disgyblion hyn yn cyflawni eu rolau â brwdfrydedd ac aeddfedrwydd ac yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae'r cyngor ysgol wedi dylanwadu ar benderfyniadau a wnaeth yr ysgol am bolisi ffonau symudol, darpariaeth amser egwyl a'r polisi ar berthnasoedd ac ymddygiad. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain fel swyddogion. Mae eu rolau'n cynnwys trefnu cyfleoedd arwain ar gyfer disgyblion yn yr ysgol iau.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon, yn ymdawelu'n gyflym, ac yn barod i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn gwaith pâr a gwaith grŵp. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn barod i gymryd rhan, er bod ychydig ohonynt yn cael trafferth dyfalbarhau â'u gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos agweddau eithriadol o dda at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig a chwilfrydig, ac yn dangos hyder wrth ofyn ac ateb cwestiynau treiddgar, a thrafod eu gwaith eu hunain.

Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is o lawer na chyfartaledd yr ysgol, ac yn peri pryder.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i greu amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol sy'n helpu cefnogi cynnydd disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae angerdd athrawon am eu pwnc, a'u gwybodaeth gadarn amdano, yn ennyn brwdfrydedd ymhlith disgyblion, ac yn achosi iddynt ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio dilyniannau o weithgareddau yn ofalus, sy'n adeiladu'n dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau difyr, yn rhoi esboniadau clir a thasgau sy'n briodol o heriol, ac yn defnyddio holi'n briodol i wirio cynnydd disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion.

Mewn lleiafrif o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau arbennig o uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau heriol yn fanwl iawn, ac yn defnyddio holi'n fedrus i ddyfnhau a phrocio dealltwriaeth disgyblion i sicrhau cynnydd cryf.

Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu'n ddigon da. Maent yn siarad gormod neu'n rhoi gormod o arweiniad i ddisgyblion ynghylch tasgau ysgrifenedig, nad yw'n rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu meddwl yn annibynnol. Nid yw'r athrawon hyn yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, yn enwedig yn ystod gweithgareddau trafod.

Mae addysgu yn y CAA yn hynod effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau sy'n gweddu'n ofalus i anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys dulliau amlsynhwyraidd ac amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, fel coginio, garddio yn y gymuned a gweithio yn neuadd fwyta'r ysgol. Mae hyn yn helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da, yn enwedig yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi adborth buddiol ar lafar i ddisgyblion yn ystod gwersi. O ganlyniad i arweiniad ysgrifenedig gan athrawon, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwella'u gwaith yn dda. Fodd bynnag, mae anghysondebau o fewn meysydd pwnc weithiau'n cyfyngu ar effaith yr agwedd hon ar eu gwaith. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn hawdd eu deall, ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, er nad ydynt yn cynnwys targedau unigol ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer monitro cynnydd disgyblion, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i roi amrywiaeth eang o ymyriadau buddiol ar waith.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol, ac yn diwallu anghenion bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, fel ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o gyrsiau, sy'n cynnwys opsiynau academaidd a galwedigaethol. Mae cyrsiau fel seicoleg, yr amgylchedd adeiledig, y clasuron, mathemateg bellach, peirianneg a thair iaith dramor fodern yn ymestyn arlwy'r cwricwlwm. Ymgynghorir yn dda â disgyblion yn ystod y broses i ddewis eu hopsiynau, a gall y rhan fwyaf o ddisgyblion astudio'r pynciau o'u dewis. Ceir ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol ar gyfer disgyblion, sy'n ymestyn y cwricwlwm ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys clybiau pwnc ac amrywiaeth o gyfleoedd cyfoethogi.

Mae disgyblion yn y CAA yn cael profiadau dysgu perthnasol a phriodol sy'n diwallu amrywiaeth eang anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol. Pan fo'n briodol, maent yn elwa ar agweddau a ddewiswyd yn ofalus o ddarpariaeth brif ffrwd. Ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn ennill ystod briodol o gymwysterau pwrpasol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn wedi'i seilio ar ddylunio cwricwlwm disgyblaethol lle rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth bwnc fanwl a'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destunau dilys. Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd addysgu da ac yn ei roi wrth wraidd eu datblygiadau i'r cwricwlwm. Eleni, mae'r ysgol wedi cyflwyno'i chwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7. Mae staff yn parhau i dreialu gwahanol ddulliau, wedi'u dilyn gan werthuso a mireinio trylwyr. Mae arweinwyr wedi gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod y profiadau dysgu ym Mlwyddyn 7 yn adeiladu'n dda ar brofiadau blaenorol disgyblion.

Mae'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr pwnc i sicrhau bod y cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm yn werthfawr ac yn darparu lefel addas o her. Caiff y ddarpariaeth ei chydlynu'n dda, ac mae gan yr arweinwyr hyn drosolwg da ohoni. Mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatrys problemau wedi'u geirio a phroblemau aml-gam o fewn mathemateg. Ceir ystod eang o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, mae adborth athrawon ar fedrau llythrennedd disgyblion yn anghyson, o fewn adrannau, ac ar eu traws. Mae trefniadau addas ar waith i gynorthwyo disgyblion sydd â medrau darllen a rhifedd sylfaenol gwan. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau teilwredig wedi'u cyflwyno gan staff a disgyblion y chweched dosbarth.

O fewn gwersi cyfrifiadura ac ar draws y cwricwlwm, rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Er enghraifft, mewn celf a dylunio, mae disgyblion yn defnyddio pecynnau darlunio digidol i gyflwyno'u dyluniadau, ac mewn gwyddoniaeth, maent yn defnyddio meddalwedd i ddylunio byrddau cylched.

Trwy'r gwersi lles, gwasanaethau, cyfnodau cofrestru ac ar draws y cwricwlwm, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol, a'u gwerthfawrogiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, yn ystod gwersi lles, mae disgyblion yn trafod beth sy'n gwneud perthnasoedd iach ac afiach. Ceir ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, fel yr Eisteddfod ysgol, 'Diwrnod Shwmae Sumae' a 'Dydd Miwsig Cymru'. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymhwyster TGAU mewn Cymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru wedi'i datblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth i les staff a disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo uniondeb ac empathi tuag at bobl eraill yn barhaus trwy ei hethos ysgol gyfan, sef 'gweithiwch yn galed, byddwch yn garedig'.

Mae'r tîm lles yn rhoi pwyslais cryf ar leihau rhwystrau rhag dysgu, fel effaith tlodi. Maent yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol i ddarparu cymorth effeithiol a theilwredig ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei angen fwyaf.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY a rhwystrau eraill rhag dysgu yn gryfder arbennig. Mae gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) weledigaeth glir ar gyfer sut mae'r ysgol yn nodi anghenion ac yn rhoi cymorth unigoledig i ddisgyblion. Caiff y CydADY gymorth da gan y tîm ADY. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i bob un o'r staff yn rheolaidd, ac maent yn elwa ar wybodaeth bwysig i lywio'u cynllunio. Mae'r tîm ADY wedi meithrin perthnasoedd gwerthfawr â rhieni disgyblion ag ADY ac mae gan ddisgyblion a rhieni rôl allweddol yn y cyfarfodydd adolygu sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Mae prosesau ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion ag ADY yn drylwyr, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rhoddir cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu llythrennedd emosiynol trwy ymyriadau gwerthfawr.

Mae staff yn y CAA yn darparu lefelau uchel o ofal a chymorth ar gyfer disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion sy'n mynychu'r CAA ddatblygu eu medrau bywyd trwy amrywiaeth eang o weithgareddau, y maent yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Maent yn mynychu gwersi prif ffrwd, lle bo'n briodol, ac mae staff yn eu paratoi'n dda i integreiddio â chymuned ehangach yr ysgol.

Mae'r polisi ar berthnasoedd ac ymddygiad yn darparu strategaethau gwerthfawr i staff ar gyfer delio'n effeithiol ag ymddygiad, er bod hwn yn cael ei gymhwyso'n anghyson mewn ychydig iawn o achosion. Mae staff yn gweithio'n bwrpasol gyda darpariaeth 'Dalen Newydd' yr awdurdod lleol, sydd wedi'i lleoli o fewn yr ysgol, i

gynorthwyo disgyblion â heriau ymddygiadol. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn ymateb i honiadau o fwlio yn briodol. Fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm bugeiliol yn golygu nad ymdrinnir yn ddigon effeithiol ag ychydig iawn o achosion yn ddigon effeithiol.

Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu ar draws yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am bryderon yn glir a thrylwyr. Caiff staff hyfforddiant priodol a rheolaidd, sy'n eu helpu i adnabod unrhyw niwed posibl, a deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae staff yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol wrth ymateb i bryderon am amddiffyn plant a threfnu cymorth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Ceir trefniadau cynhwysfawr ar gyfer recriwtio diogel o ran staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithredu ystod o strategaethau buddiol i helpu disgyblion i ddeall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Er enghraifft, mae gwersi lles ar wahân yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod pwysigrwydd perthnasoedd iach, ac mae gweithgareddau amser dosbarth yn annog disgyblion i herio gwahaniaethu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn helpu disgyblion yn dda â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Ceir systemau a gweithdrefnau addas i fonitro presenoldeb, ac ymyriadau priodol ar gyfer disgyblion â phresenoldeb isel. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw hyn yn cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Gall pob un o'r disgyblion fanteisio ar raglen gynhwysfawr o gyfleoedd allgyrsiol. Mae llawer o glybiau chwaraeon lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a gwaith tîm, er enghraifft clwb rhwyfo poblogaidd yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd i ymestyn eu medrau creadigol hefyd trwy gynyrchiadau ysgol ac ensembles cerddorol amrywiol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy'r cyngor ysgol, grwpiau wedi'u harwain gan ddisgyblion fel 'Y Gynghrair Rhywedd a Rhywioldeb' a'r rhaglen llysgenhadon lles. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion a rhieni trwy arolygon amrywiol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol yn briodol, er enghraifft wrth werthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm lles.

Mae staff yn gweithio'n dda â sefydliadau partner, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i arwain disgyblion â'u camau nesaf gan eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus wrth symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywyd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac uchelgeisiol. Caiff ei gynorthwyo'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth y mae cymuned yr ysgol yn eu parchu'n dda ac yn ymddiried ynddynt. Bu eu harweinyddiaeth gref yn rheoli'r ysgol trwy bandemig COVID-19 yn llwyddiannus, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, fel y diwylliant diogelu, datblygu'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Mae'r arwyddair 'gweithiwch yn galed, byddwch yn garedig' yn ategu'r disgwyliadau ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol.

Mae capasiti'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi cynyddu yn ddiweddar, ac adolygwyd cyfrifoldebau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol ac yn gwneud y defnydd gorau o fedrau a diddordebau staff unigol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu dirprwyo'n synhwyrol, eu diffinio'n glir, a'u deall yn dda. Mae trefniadau rheoli llinell yn glir, ac fe gaiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn briodol. Maent yn elwa ar drafodaethau mynych a thrylwyr gydag uwch arweinwyr am beth maent yn ei addysgu, a sut. Fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau hyn bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff addysgu ar ddysgu a datblygiad medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o brosesau rheoli perfformiad trylwyr a hyfforddi cyfarwyddol i wella arferion pob un o'r staff, gan gynnwys unrhyw rai sy'n tanberfformio.

Mae bron pob un o'r arweinwyr canol yn deall blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda, ac yn gefnogol ohonynt. Maent hefyd yn glir am eu rôl mewn sicrhau cynnydd yn erbyn targedau ysgol gyfan fel datblygu'r cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi cynyddu capasiti'r tîm bugeiliol trwy benodi swyddogion cymorth bugeiliol ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4, er nad yw'n ddigon clir sut mae eu rolau'n cyfuno â'r cyfarwyddwyr dysgu yn y cyfnodau allweddol priodol.

Mae arweinwyr yn gyrru ystod o brosesau sicrhau ansawdd sy'n darparu ymagwedd barhaus at welliant. Mae'r prosesau hyn yn cefnogi deialog broffesiynol drylwyr ynglŷn â sut i gyflawni darpariaeth o ansawdd da, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff addysgu ar ddatblygu medrau disgyblion yn benodol. O ganlyniad, mae'n anos i arweinwyr fod yn ddigon manwl gywir am yr agweddau ar eu gwaith y maent yn anelu at eu gwella, neu ynglŷn â sut olwg allai fod ar lwyddiant.

Mae gan yr ysgol ymagwedd hynod strategol at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i hintegreiddio'n agos â'i phrosesau gwella eraill. Caiff ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol eu cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion meysydd pwnc a staff unigol. Mae arweinwyr wedi sefydlu egwyddorion a ddeellir yn glir sy'n ategu'r gwaith hwn, ac yn sicrhau ei fod yn cefnogi blaenoriaethau gwella ysgol gyfan yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys terminoleg ar y cyd a ddeellir yn dda ynghylch dulliau addysgu sydd o fudd i staff a disgyblion, fel ei gilydd. Caiff staff gyfleoedd rheolaidd a buddiol i rannu arfer dda o fewn meysydd pwnc, ac ar eu traws. Caiff gweithgareddau dysgu proffesiynol eu cefnogi'n dda gan waith gydag asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r gweithgareddau hyn yn drylwyr ac yn addasu dulliau yn unol â hynny. O ganlyniad, caiff dysgu proffesiynol effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, yn enwedig ansawdd yr addysgu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn darparu her briodol o addas i'r holl arweinwyr. Maent yn aelodau balch o gymuned yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfeiriad strategol yr ysgol. Maent wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Mae'r rheolwr busnes, uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Caiff gwariant ei gynllunio'n gyfrifol a'i adolygu'n ofalus. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i sicrhau tegwch i'r disgyblion hynny sy'n profi anfantais trwy ddefnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys mwy o staff

bugeiliol i gynorthwyo disgyblion unigol, darparu gwisg ysgol ac adnoddau yn ôl yr angen, a chynnig cyfle cyffredinol i gael brecwast am ddim ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni gan rannu gwybodaeth bwysig mewn modd amserol, trwy gylchlythyrau wythnosol a seminarau ar-lein, ffair gyrfaoedd a noson wybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at berthynas gynhyrchiol a phwrpasol â theuluoedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/04/2023